

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Aseiad Strwythuredig 2015

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2015

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 756A2015

Statws yr adroddiad

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o'r gwaith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn dweud beth yw'r drefn wrth ymdrin â cheisiadau y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol.

Gyda golwg ar y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol oedd Melanie Watson ac Oliver Mitchell o KPMG.

Cynnwys

Mae'r trefniadau, sy'n cefnogi llywodraethu da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, yn dal i esblygu, ond mae angen eu gwella eto mewn rhai meysydd pwysig.

Adroddiad cryno

Y cyd-destun	4
Y prif gasgliadau	4
Argymhellion	6

Canfyddiadau manwl

Mae'r Ymddiriedolaeth yn debygol o gydbwysu'r fantolen ar ddiwedd 2015-16 oherwydd yr arian ychwanegol a ddyrannwyd iddi gan y llywodraeth a chomisiynwyr yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwaith ychwanegol y cytunwyd arno	8
--	---

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â gwendidau yn ei threfniadau llywodraethu, ac mae'r perfformiad yn gwella mewn meysydd pwysig, ond mae bylchau sylfaenol yn y seilwaith llywodraethu o hyd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn	9
---	---

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd o ran datblygu a gweithredu ei dulliau rheoli newid, ond mae cyfleoedd o hyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n well mewn rhai meysydd	15
--	----

Atodiadau

Argymhellion asesiad strwythuredig 2014	20
---	----

Adroddiad cryno

Y cyd-destun

1. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn darparu gwasanaethau ambiwlans ar gyfer pobl Cymru. Ym mis Ebrill 2015, roedd yr Ymddiriedolaeth yn cyflogi bron 3,000 o staff ar draws ystod o ddisgyblaethau a swyddogaethau. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n newid ffocws ei gwasanaeth i'w sefydlu'n wasanaeth meddygol brys sy'n canolbwyntio ar ansawdd ac yn cael ei arwain a'i sbarduno gan ystyriaethau clinigol, yn ogystal â gwasanaeth sy'n gofalu am gleifion nad ydynt yn achosion brys a darparu gofal a chynghor iechyd 24 awr y dydd.
2. Mae'r Asesiad Strwythuredig yn ymchwilio i drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cefnogi llywodraethu da a defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gwaith yn 2015 wedi asesu pa mor gadarn yw trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, pa mor ddigonol yw ei threfniadau llywodraethu a'r ffordd y mae'n rheoli'r prif alluogwyr sy'n ei helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol. Wrth archwilio'r meysydd hyn, rydym wedi ystyried y cynnydd o'i gymharu â'r meysydd i wella arnynt a nodwyd y llynedd¹. Trefnwyd y gwaith archwilio o dan y meysydd a ganlyn:
 - **Cynllunio a rheolaeth ariannol**, gan gynnwys:
 - Iechyd ariannol, cynllunio ariannol a chynlluniau arbed.
 - **Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes**, gan gynnwys:
 - Cynllunio strategol, strwythur, trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol.
 - **Galluogwyr i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol**, gan gynnwys:
 - Rheoli newid, y gweithlu, asedau ac ymgysylltu.
3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi wynebu nifer o heriau penodol yn ystod y flwyddyn. Mae wedi gweithio gyda chomisiynwyr i gytuno ar fframwaith comisiynu clinigol newydd ar gyfer ei gwasanaethau ac i'w sefydlu, mae wedi datblygu model ymateb clinigol newydd, ac wedi gwneud y gwaith hwn mewn amgylchedd ariannol heriol yn wyneb craffu sylweddol gan y cyfryngau a'r cyhoedd.

Y prif gasgliadau

4. Yn 2014, daeth ein hasesiad strwythuredig i'r casgliad bod y trefniadau i gefnogi llywodraethu a rhoi sicrwydd i'r bwrdd yn gadarn ar y cyfan a bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r meysydd datblygu a nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol, ond bod angen eu datblygu eto er mwyn sicrhau bod y sefyllfa ariannol yn gynaliadwy a bod gwasanaethau'n gwella.
5. Yn ystod 2015, mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i wneud cynnydd, yn enwedig o ran meithrin capasiti a gallu. Ein casgliad cyffredinol yn sgil gwaith asesiad strwythuredig 2015 yw bod y trefniadau, sy'n cefnogi llywodraethu da a'r defnydd

¹ Mae argymhellion 2014 ynghyd â chrynodeb o'r cynnydd i'w gweld yn [Atodiad 1](#).

effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn dal i esblygu, ond bod angen eu gwella eto mewn rhai meysydd pwysig.

6. Rhoddir ein rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn [isod](#).

Cynllunio a rheolaeth ariannol

7. Mae'r Ymddiriedolaeth yn debygol o gydbwysu'r fantolen ar ddiwedd 2015-16 oherwydd yr arian ychwanegol a ddyrannwyd iddi gan y llywodraeth a chomisiynwyr yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwaith ychwanegol y cytunwyd arno. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom y canlynol:

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gynnal amgylchedd rheoli da â staff medrus.
- Cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth ei thargedau ariannol ar ôl cael arian ychwanegol yn 2014-15. Roedd gofyn cael arian refeniw ychwanegol gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i gyflawni ei dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb.
- Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i roi cynlluniau arbed costau ar waith yn unol â'r gyllideb, ond nid oedd y rhain yn effeithiol o ran lleihau cyfanswm y costau oherwydd bod y gwariant ar gyfer gwasanaethau'r rheng flaen wedi cynyddu'n sylweddol. Digwyddodd y cynnydd hwn wrth ymateb i amcan Llywodraeth Cymru i wella cyfraddau ymateb ambiwlansys. Roedd pob parti yn cytuno bod hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar gostau.
- Defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth dull cynllunio senarios i'w helpu i ddatblygu rhagolygon costau ar gyfer 2015-16.

Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

8. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â gwendidau yn ei threfniadau llywodraethu, ac mae'r perfformiad yn gwella mewn meysydd pwysig, ond mae bylchau sylfaenol yn y seilwaith llywodraethu o hyd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn.
9. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom y canlynol:
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ei dulliau cynllunio strategol mewn blynyddoedd blaenorol wedi bod yn wan ac mae'n cryfhau ei dull gweithredu ar gyfer 2016-17 ymlaen. Mae wedi penodi uwch staff ychwanegol i hwyluso hyn.
 - Mae'r strwythur uwch reoli wedi'i adolygu er mwyn darparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen yn ddifawr ar y tîm Gweithredol.
 - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio'i strwythurau llywodraethu i'w gwneud yn fwy eglur ac effeithlon, ac mae'n elwa ar gael Bwrdd profiadol a gwybodus, ond nid yw'r systemau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r bwrdd wedi eu datblygu'n ddigonol nac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.
 - Nid yw dulliau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth na'i ffordd o roi sicrwydd i'r Bwrdd yn effeithiol, ond mae ganddi gynlluniau ar waith i wella'r rhain yn 2016-17.

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwella'r ffordd y mae'n defnyddio gwybodaeth reoli i'w helpu gyda'i gwaith cynllunio strategol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cryfhau ei dulliau rheoli perfformiad ac mae'n gwella'r ffordd y mae'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad, er nad oes fframwaith perfformiad cadarn ar waith eto. Mae'r perfformiad mewn meysydd sy'n bwysig i'r Ymddiriedolaeth yn gwella.

Galluogwyr i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

10. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd o ran datblygu a gweithredu ei dulliau rheoli newid, ond mae cyfleoedd o hyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n well mewn rhai meysydd.
11. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom y canlynol:
 - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu dull mwy strwythuredig a disgybledig o reoli newid drwy reoli rhaglenni, ond gallai'r prinder adnoddau i weinyddu hyn amharu ar roi prosiectau newid ar waith;
 - Mae'r Model Clinigol y cytunwyd arno â'r comisiynwyr a'r dulliau gwell o ddadansoddi gwybodaeth reoli'n golygu bod yr Ymddiriedolaeth yn fwy clir ynghylch datblygu cynllun y gweithlu – cynllun sy'n gwneud rhywfaint o gynnydd;
 - Mae'r cynlluniau strategol ar gyfer ystâd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n cael eu hadolygu;
 - Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gryfhau ei gwaith partneriaeth ac wedi sefydlu blaenoriaeth i'w gwella eto.
12. Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn wedi'u crynhoi yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Argymhellion

13. Mae'r argymhellion sy'n codi yn sgil gwaith asesu strwythuredig 2015 i'w gweld isod.

Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

- | | |
|----|--|
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu fframwaith cadarn ar gyfer rheoli risg a rhoi sicrwydd i'r bwrdd a rhoi'r fframwaith hwnnw ar waith. |
| A2 | Dylid pwysleisio bod angen cwblhau prosesau corfforaethol (megis adolygu risgiau a diweddariadau ynghylch argymhellion archwiliadau) gan swyddogion gweithredol ac uwch reolwyr er mwyn cryfhau'r trefniadau llywodraethu. |
| A3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu ei fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad a'i rhoi ar waith yn llawn. Dylai hefyd gryfhau ei threfniadau ar gyfer adrodd am berfformiad fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Archwilio Blynyddol yn 2014. |

Galluogwyr i helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

- A4 Dylid darparu digon o adnoddau i ategu'r rhaglen rheoli newid (Rhaglen Portffolio) er mwyn cynnal cyflymder y broses a sicrhau cyn lleied o lithro ar â phosibl.
- A5 A'r model clinigol wedi'i gytuno arno bellach a mwy o eglurder ynghylch anghenion y gweithlu, dylai'r Ymddiriedolaeth weithio'n gyflym i ddatblygu cynllun credadwy ar gyfer ei hystâd a hwnnw'n un y mae modd ei gyflawni.

Canfyddiadau manwl

Mae'r trefniadau, sy'n cefnogi llywodraethu da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, yn dal i esblygu, ond mae angen ei wella eto mewn rhai meysydd pwysig

14. Rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn isod, wedi'u grwpio o dan themâu cynllunio a rheoli ariannol, trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes a galluogwyr i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol. Mae'r canfyddiadau'n cyfeirio at gryfderau a datblygiadau yn ogystal ag at y risgiau a'r heriau sy'n dal i wynebu'r Ymddiriedolaeth.

Cynllunio a rheolaeth ariannol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn debygol o gydbwyso'r fantolen ar ddiwedd 2015-16 oherwydd yr arian ychwanegol a ddyrannwyd iddi gan y llywodraeth a chomisiynwyr yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwaith ychwanegol y cytunwyd arno

15. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom y canlynol:
 - Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gynnal amgylchedd rheoli da â staff medrus.
 - Yn 2015 llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r mesur perfformiad ariannol sef cofnodi colled neu warged o lai na £500,000. Fel yn 2014, y rheswm dros hyn oedd cynnydd yn y cronfeydd a gafwyd gan y comisiynwyr i dalu am gostau gwasanaethau'r rheng flaen yn y flwyddyn. Ailadroddwyd y taliad o tua £5.6 miliwn a gafwyd yn 2014 ac ychwanegwyd £8.75 miliwn arall at hynny er mwyn i'r Ymddiriedolaeth allu talu ei chostau.
 - Y prif beth a oedd yn gyfrifol am y cynnydd yn y costau oedd darparu gwasanaethau 'rheng flaen' a oedd yn golygu cynnydd yng nghostau'r staff (goramser, cymorth gan asiantaethau a chynnydd yn nifer y staff) a'r gwasanaethau a'r cyflenwadau a brynwyd gan gyrff y GIG a thrydydd partion. Cyfrannodd y tair llinell wariant hyn at gynnydd o £6.2 miliwn.
 - Fel mewn blynyddoedd blaenorol, drwy reolaeth gyllidebol dda yn ystod y flwyddyn, rheolaeth ariannol dda ac arian ychwanegol, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn 2014-15, ond mae risgiau sylweddol ynghlwm wrth osod cyllidebau cytbwys ar gyfer y dyfodol.
 - Rhagwelir y bydd y cynlluniau arbed ar gyfer 2015-16 yn tangyflawni o £0.511 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, a bod bron hanner yr arbedion a nodwyd yn rhai na fydd yn codi ar batrwm cylchol. Er hynny, mae'r gwaith o ganfod arbedion cylchol wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu â'r hyn a welwyd yn y flwyddyn

flaenorol. Yn 2014, roedd llai nag 20 y cant o'r arbedion yn rhai cylchol ond yn 2015 mae hyn wedi cynyddu i 50.8 y cant.

Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â gwendidau yn ei threfniadau llywodraethu, ac mae'r perfformiad yn gwella mewn meysydd pwysig, ond mae bylchau sylfaenol yn y seilwaith llywodraethu o hyd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn

16. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom y canlynol:
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ei dulliau cynllunio strategol mewn blynyddoedd blaenorol wedi bod yn wan a'i bod yn cryfhau'r rhain ar gyfer 2016-17 ymlaen. Mae wedi penodi uwch staff ychwanegol i hwyluso hyn.
 - Mae'r strwythur uwch reoli wedi'i adolygu er mwyn darparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen yn ddirfawr ar y tîm Gweithredol.
 - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio'i strwythurau llywodraethu i'w gwneud yn fwy eglur ac effeithlon, ac mae'n elwa ar gael Bwrdd profiadol a gwybodus, ond nid yw'r systemau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r bwrdd wedi eu datblygu'n ddigonol nac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.
 - Nid yw dulliau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth na'i ffordd o roi sicrwydd i'r Bwrdd yn effeithiol, ond mae ganddi gynlluniau ar waith i wella'i dulliau yn 2016-17.
 - Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwella'r ffordd y mae'n defnyddio gwybodaeth reoli i ategu'r gwaith cynllunio strategol.
 - Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dulliau rheoli perfformiad gyda help fframwaith perfformiad y cytunwyd arno â'r comisiynwyr. Mae'r perfformiad mewn meysydd sy'n bwysig i'r Ymddiriedolaeth yn gwella.
17. Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn wedi'u crynhoi yn yr adrannau a'r canlynol.

Cynllunio strategol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ei dulliau cynllunio strategol mewn blynyddoedd blaenorol wedi bod yn wan a'i bod yn cryfhau'r rhain ar gyfer 2016-17 ymlaen. Mae wedi penodi uwch staff ychwanegol i hwyluso hyn.

18. Crynhoir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 2**.

Tabl 2: cynllunio strategol

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<p>Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dulliau cynllunio strategol ar gyfer 2015-16 ymlaen. Mae wedi penodi Pennaeth Cynllunio a Datblygu Strategol, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid i hwyluso hyn.</p>	<p>Ni lwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig â Llywodraeth Cymru yn 2015. Y rheswm dros hyn yn rhannol oedd diffyg aeddfedrwydd y trefniadau comisiynu ar ddechrau'r flwyddyn, sydd bellach wedi gwella'n sylweddol.</p>
<p>Mae cynllun prosiect a threfniadau rheoli priodol ar waith i gyflawni'r Cynllun erbyn mis Mawrth 2016.</p>	<p>O ran Cynllun 2015-16, mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ddisgwyl am gymeradwyaeth y Gweinidog.</p>
<p>Mae'r broses gynllunio wrthi'n cael ei diwygio ar gyfer 2016-17 ymlaen i sicrhau bod y cynllun yn cael ei adeiladu o'r bôn i'r brig drwy'r Cynlluniau Cyflawni Lleol adrannol ar sail gweledigaeth ddiwygiedig gan yr Ymddiriedolaeth a thybiaethau cynllunio clir. Mae'r staff wedi bod mewn gweithdy i'w helpu gyda'u gwaith cynllunio lleol ac mae Cynlluniau Cyflawni Lleol wedi'u drafftio.</p>	<p>Roedd y capasiti cynllunio'n gyfyngedig adeg datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig presennol.</p>
<p>Ymgynghorwyd â Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2015-16 (Cynllun Blaenoriaethau Blwyddyn Un).</p>	
<p>Drwy gytuno ar fodel comisiynu â'r Cydbwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, gall yr Ymddiriedolaeth osod amcanion eglurach a chynllunio ar gyfer y tymor canol (2016-17 – 2017-18).</p>	
<p>Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun prosiect i ddatblygu a gwella ei phrosesau cynllunio ariannol, ac i gryfhau ei strategaeth ariannol sy'n datblygu dros y tymor canol.</p>	
<p>Ategir yr wyth prif flaenoriaeth a nodwyd yng Nghynllun Blaenoriaethau Blwyddyn Un gan 'gynlluniau clir ar dudalen', budd yn sgîl nawdd gweithredol a fframwaith rheoli perfformiad cadarn ar gyfer ei gyflawni.</p>	

Strwythur sefydliadol

Mae'r strwythur uwch reoli wedi'i adolygu er mwyn darparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen yn ddifawr ar y tîm Gweithredol.

19. Crynhoir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 3**.

Tabl 3: strwythur trefniadaethol

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
Mae'r Prif Weithredwr yn meithrin gallu'r uwch dîm rheoli ar lefel y drydedd haen i gefnogi'r tîm Gweithredol. Er enghraifft, mae Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro yn ei swydd erbyn hyn.	Oherwydd diffyg capasiti ymhlith yr uwch dîm, nid oes llawer o brosesau rheolaidd a hanfodol, megis adolygu'r gofrestr risgiau ac olrhain argymhellion archwiliadau wedi'u rhoi ar waith yn gyson. Nod adolygu'r strwythurau uwch reoli yw mynd i'r afael â hyn.
Mae arbenigedd ychwanegol ar waith bellach i ryddhau gallu'r Tîm Gweithredol i ategu cynllunio strategol, rheoli rhaglenni, cyfathrebu, datblygu'r gweithlu a chynllunio ariannol. Mae rôl Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth wedi'i hadleoli ym Mhencadlys Cwmbrân i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.	

Strwythurau llywodraethu

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio'i strwythurau llywodraethu i'w gwneud yn fwy eglur ac effeithlon, ac mae'n elwa ar gael Bwrdd profiadol a gwybodus, ond nid yw'r systemau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r bwrdd wedi eu datblygu'n ddigonol nac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson

20. Crynhoir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 5**.

Tabl 5: strwythurau llywodraethu

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<p>Mae strwythur pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth wedi newid ar ôl adolygiad i sicrhau ffocws eglurach a gwell cydbwysedd i'r agenda.</p> <p>Mae gan yr Ymddiriedolaeth bellach dri is-bwyllgor (Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, Pwyllgor Ansawdd, Profiad y Claf a Diogelwch, a Phwyllgor Archwilio). Mae'r Bwrdd Trawsnewid Strategol blaenorol bellach wedi'u gynnwys yn y Tîm Gweithredol yn sgil hyder cynyddol y swyddogion anweithredol o ran yn y trefniadau rheoli rhaglenni.</p>	<p>Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Sicrhau'r Bwrdd ar waith eto sy'n effeithiol ac yn gweithredu'n llawn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr risg gorfforaethol sy'n cael ei hadolygu gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd o bryd i'w gilydd, ond mae gofyn cael proses rheoli risg fwy cadarn a digon o graffu gweithredol ynghyd â datblygu Fframwaith effeithiol i roi Sicrwydd i'r Bwrdd.</p>
<p>Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnig lefel dda o her gan gyfarwyddwr profiadol a gwybodus anweithredol.</p>	<p>Mae cadernid prosesau rheoli mewnol megis y drefn i olrhain argymhellion archwiliadau'n dal i ddibynnu ar ddisgyblaeth gorfforaethol uwch reolwyr a chyfarwyddwr i adrodd am y camau a gymerwyd ac mae hyn wedi bod yn anghyson, a hynny'n aml oherwydd bod adnoddau dan bwysau.</p>
<p>Mae gwaith wedi'i gomisiynu i ddatblygu dulliau effeithiol o reoli risg a rhoi sicrwydd i'r bwrdd ac adroddiadau am hyn wedi'u cyflwyno, ond mae'n rhy fuan eto inni weld beth yw effaith y gwaith hwn.</p>	
<p>Wrth ddatblygu'r tîm ar y lefel uchaf mae'r Prif Weithredwr yn ceisio gwella'r 'ddisgyblaeth gorfforaethol' hon wrth gwblhau gweithgareddau corfforaethol megis olrhain argymhellion archwiliadau a chraffu ar risgiau corfforaethol.</p>	

Rheoli risg

Nid yw dulliau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth na'i ffordd o roi sicrwydd i'r bwrdd yn effeithiol, ond mae ganddi gynlluniau ar waith i wella'r rhain yn 2016-17

21. Crynhoir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 7**.

Tabl 7: rheoli risg

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
Mae gwaith yn cael ei wneud i reoli risg prosiectau a rhaglenni. Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal ar bob prosiect ac mae modd dyrchafu risgiau at sylw'r Bwrdd Rhaglenni iddo weithredu arnynt os bydd angen.	Mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr risgiau corfforaethol a adolygir gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd o bryd i'w gilydd, ond nid yw'n cael ei defnyddio'n strategol i sbarduno agendau'r Ymddiriedolaeth ac nid yw'r bwrdd gweithredol yn craffu arni'n ddigonol ar hyn o bryd.
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei dulliau o reoli risg a rhoi sicrwydd i'r bwrdd ac mae wedi cytuno ar saith argymhelliad i wella'r rhain gan gynnwys datblygu Strategaeth Sicrwydd i'r Bwrdd a Rheoli Risgiau; datblygu dogfen Fframwaith Sicrwydd i'r Bwrdd ar gyfer 2016-17; gwella cynnwys a chwmpas y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Chofrestrau Risgiau Lleol, ynghyd â goruchwyliaeth, monitro ac adrodd o'r canol, a rhoi Datix ar waith fel seilwaith i ategu'r broses o reoli risgiau a phryderon.	Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith i roi Sicrwydd i'r Bwrdd na strategaeth ar waith.

Rheoli perfformiad

Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cryfhau ei dulliau rheoli perfformiad ac mae'n gwella'r ffordd y mae'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad, er nad oes fframwaith perfformiad cadarn ar waith eto. Mae'r perfformiad mewn meysydd sy'n bwysig i'r Ymddiriedolaeth yn gwella

22. Crynhoir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 10**.

Tabl 10: rheoli perfformiad

Cryfderau a datblygiadau	Risgiau a heriau
<p>Mae datblygu'r model ymateb clinigol newydd gyda'r comisiynwyr wedi arwain at gyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr adroddir yn eu cylch bob chwarter i'r Cydbwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys.</p>	<p>Serch hynny, mae'r fframwaith monitro ac adrodd ar berfformiad ar gyfer y model clinigol wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd.</p> <p>Mae'r Ymddiriedolaeth a'r Comisiynydd wedi cytuno ar rai mesurau 'profion iechyd' dros dro i roi sicrwydd ac i fonitro effaith y model ymateb clinigol.</p> <p>Adroddir am y rhain nes y cytunir ar fframwaith perfformiad yr Ymddiriedolaeth.</p> <p>Mae datblygu fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad i'r Ymddiriedolaeth wedi'i restru'n flaenoriaeth yng nghynllun Blaenoriaethau Blwyddyn Un ond nid yw wedi cael ei ddatblygu a'i gymeradwyo eto.</p>
<p>Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi cael ei ddiwygio ac mae'n cynnwys cerdyn sgorio cytbwys drafft, ac ar sail hwnnw, bydd set ddiwygiedig o ddangosyddion lefel uchel yn cael ei datblygu sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau model clinigol.</p>	<p>Nid yw ein hargymhelliad yn 2014 ynghylch gwella adroddiad perfformiad integredig yr Ymddiriedolaeth wedi cael sylw eto.</p> <p>Er bod fformat yr adroddiad wedi gwella nid yw'n defnyddio meincodi allanol i gymharu'r perfformiad â'r perfformiad diwedd blwyddyn a ragwelir. Mae adroddiadau am berfformiad hefyd yn dal i gael eu cyflwyno i'r Bwrdd ddau fis yn hwyr. Mae newidiadau i'r adroddiad am berfformiad yn dibynnu ar y fframwaith cynllunio a pherfformiad sydd wrthi'n datblygu a bydd angen gwella'r adroddiad eto i'w gysoni ag amcanion strategol sy'n codi o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a fframwaith perfformiad y Model Clinigol newydd.</p>
<p>Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed i wella'i dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng cyllid a gwybodaeth reoli am y gweithlu sy'n rhoi mwy o gadernid i'r prosesau cynllunio strategol gan ddarparu gwybodaeth gywir amser-real am y tro cyntaf.</p>	<p>Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r data am y gweithlu'n dal i fod yn anghywir (ee, hyfforddiant gorfodol) ac nid yw rhywfaint o'r data yn hawdd i rai grwpiau o staff gael gafael arnynt (ee, data Arfarnu Perfformiad ac Adolygu Datblygiad i staff corfforaethol).</p>

Cryfderau a datblygiadau

Gwelwyd arwyddion o wella perfformiad mewn sawl maes megis lefelau salwch is a gwell amserau ymateb gan ambiwlansys:

- mae lefelau salwch y staff wedi gostwng yn sylweddol o ryw naw y cant ym mis Gorffennaf 2014 i 6.5 y cant ym mis Gorffennaf 2015; ac
- yn ystod mis cyntaf pan gyflwynwyd y model ymateb clinigol newydd (hydref 2015) gwelwyd yr Ymddiriedolaeth yn rhagori ar ei tharged ymateb i Alwadau Coch (65 y cant) gan sicrhau'r ymateb wyth munud ar gyfer 68.7 y cant o'r galwadau.

Risgiau a heriau

Galluogwyr i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd o ran datblygu a gweithredu ei dulliau rheoli newid, ond mae cyfleoedd o hyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n well mewn rhai meysydd

23. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom y canlynol:

- mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu dull mwy strwythuredig a disgybledig o reoli newid drwy reoli rhaglenni, ond gallai'r prinder adnoddau i weinyddu hyn amharu ar roi prosiectau newid ar waith;
- mae'r Model Clinigol y cytunwyd arno â'r comisiynwyr a'r dulliau gwell o ddadansoddi gwybodaeth reoli'n golygu bod yr Ymddiriedolaeth yn fwy clir ynghylch datblygu ei chynllun gweithlu – cynllun sy'n gwneud rhywfaint o gynnydd;
- mae'r cynlluniau strategol ar gyfer ystâd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n cael eu hadolygu; ac
- mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gryfhau ei gwaith partneriaeth ac wedi sefydlu blaenoriaeth i'w wella eto.

24. Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn wedi'u crynhoi yn yr adrannau a'r tablau canlynol.

Rheoli newid

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu dull mwy strwythuredig a disgybledig o reoli newid drwy reoli rhaglenni, ond gallai'r prinder adnoddau i weinyddu hyn amharu ar roi prosiectau newid ar waith.

25. Crynhoir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 11**.

Tabl 11: rheoli newid

Cryfderau/datblygiadau	Heriau/risgiau/cyfleoedd
Yn sgil lefelau cynyddol o sicrwydd ar lefel Gweinidogion a gallu a chapasiti'r Ymddiriedolaeth i fwrw ymlaen â newid strategol, nid oes angen monitro mor ddwys gan Lywodraeth Cymru.	Diffyg capasiti uwch swyddogion gweithredol i sicrhau craffu digon cadarn ar y rhaglen.
Rheolir a chydlynir rhoi portffolio'r Ymddiriedolaeth o chwe rhaglen newid ar waith drwy ddull rheoli Portffolio strwythuredig a rheoledig.	Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau ar gael ar gyfer rheoli rhaglenni i gynnal cyflymder y newid a fwriedir. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y risg hon.
Mae gan yr Ymddiriedolaeth fyrddau rhaglenni sefydledig ar gyfer pob un o'i chwe rhaglen newid ac mae gan bob un ohonynt Swyddog Gweithredol i'w harwain. Mae byrddau'r rhaglenni'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyflawni'r canlyniadau a ddisgrifir yn y 'cynlluniau ar dudalen' perthnasol ac yn nogfennaeth y rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys rheoli amser, ac adnoddau, ynghyd ag unrhyw risgiau, problemau ac unrhyw fanteision penodol sy'n deillio o'r rhaglenni hynny. Mae'r byrddau'n gyfrifol am reoli cyflawni'r prosiectau sy'n rhan o'u rhaglen ac am ddwyn arweinyddion y prosiectau i gyfrif.	
Cadeirir Bwrdd Gweithredu'r Portffolio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cyfarfod bob mis fel rhan o gyfarfod ffurfiol y Tîm Gweithredol (ond gydag agenda benodol). Mae'r Bwrdd yn rheoli ar sail eithriadau ac yn craffu'n ffurfiol ar gyflawni'r Portffolio newid cyffredinol drwy gael adroddiadau am y prif bynciau bob mis gan Brif Berchennog Cyfrifol y rhaglen. Mae'r Bwrdd hefyd yn dal i	

Cryfderau/datblygiadau	Heriau/risgiau/cyfleoedd
oruchwyllo'r grŵp o weithgareddau llai a reolir o fewn y cyd-destun 'busnes fel arfer'.	
Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael sicrwydd am gyflawni'r Portffolio newid drwy gyfrwng diweddariad lefel-uchel yn ei chyfarfodydd Bwrdd ffurfiol. Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn dweud bod hyn yn gweithio'n dda ar hyn o bryd.	
Mae'r adolygiad hanner blwyddyn diweddaraf am y cynnydd o'i gymharu â'i rhaglen yn dangos bod y rhan fwyaf o'r rhaglenni ar y trywydd iawn ar y cyfan ee, moderneiddio clinigol, Cludo Cleifion nad ydynt yn Achosion Brys.	Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu cynllun y gweithlu wedi llithro ac nid yw'r cynllun wedi'i gyflawni eto.

Y Gweithlu

Mae'r Model Clinigol y cytunwyd arno â'r comisiynwyr a'r trefniadau gwell ar gyfer dadansoddi gwybodaeth reoli'n golygu bod yr Ymddiriedolaeth yn fwy clir ynghylch datblygu ei chynllun gweithlu – cynllun sy'n gwneud rhywfaint o gynnydd

26. Crynhoir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 12**.

Tabl 12: y gweithlu

Cryfderau/datblygiadau	Heriau/risgiau/cyfleoedd
Drwy gytuno ar y Model Clinigol â'r comisiynwyr mae'r Ymddiriedolaeth yn fwy clir ynghylch datblygu ei chynllun gweithlu sy'n rhaglen allweddol ym mhorthfolio newid yr Ymddiriedolaeth.	Mae recriwtio a threfnu rota'n her o hyd a bydd angen mynd i'r afael â hyn.
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ansawdd a chywirdeb rhywfaint o'i data am y gweithlu ac wedi'u cysoni'n fwy agos â'r sefyllfa ariannol. Mae hyn yn golygu bod modd defnyddio dulliau mwy cadarn wrth gynllunio'r gweithlu nag mewn blynyddoedd blaenorol. Penodwyd Rheolwr Gwybodaeth y Gweithlu ym mis Hydref er mwyn helpu i gyflawni'r cynllun hwn.	Fodd bynnag, mae'r data am hyfforddiant gorfodol yn anghywir o hyd ac nid oes data Gwerthuso Perfformiad ac Adolygu Datblygiad (PADR) ar gael ar gyfer rhai grwpiau staff (y ganolfan gorfforaethol).
Datblygu Strategaeth ar gyfer Pobl (cynllun gweithlu) yw un o'r priif flaenoriaethau o dan	Nodwyd bod ansawdd y PADRau yn amrywio a bod angen gwella hyn. Ym mis Medi dim ond

Cryfderau/datblygiadau	Heriau/risgiau/cyfleoedd
Gynllun Blaenoriaethau Blwyddyn Un.	33 y cant o'r PADRau oedd wedi'u cofnodi'n gyflawn.
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar nifer o dargedau i'w cyflawni ar gyfer y gweithlu erbyn mis Mawrth 2016 ee, gostyngiad o ddau y cant yn y lefelau salwch, cwblhau 85 y cant o PADRau, cydymffurfio ag 85 y cant o'r hyfforddiant a gynlluniwyd.	Ym mis Hydref, nid oedd yr Ymddiriedolaeth ar y trywydd cywir i gyrraedd un o'r targedau hyn.
Roedd lefelau salwch ym mis Awst (y ffigur diweddaraf sydd ar gael), sef 6.75 y cant fymryn o dan Darged Llywodraeth Cymru, ac roeddent hefyd yn is nag yn yr un cyfnod yn 2014.	
Mae uwch reolwyr yn dweud bod ysbryd y staff wedi gwella'n amlwg ers y llynedd.	

Ystadau ac asedau

Mae'r cynlluniau strategol ar gyfer ystâd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n cael eu hadolygu.

27. Crynhoir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 13**.

Tabl 13: ystadegau ac asedau

Cryfderau/datblygiadau	Heriau/risgiau/cyfleoedd
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Rhaglen Amlinelliad Strategol ar gyfer ei hystâd y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ei hystyried er mwyn cytuno arni.	Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn gweithredu Strategaeth Ystadegau Genedlaethol Ddeng Mlynedd nad yw'n gyson â'r cynlluniau strategol sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth yn hen, mae gwaith cynnal a chadw sylweddol yn cronni arnynt ac mae gofyn eu rhesymoli. Bydd gofyn adolygu'r ystâd yn awr er mwyn ei chysoni â'r model clinigol ac anghenion y gweithlu.
Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau i adolygu ei chynlluniau ar gyfer ei hystadau'n sylweddol yn gynnar yn 2016.	

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gryfhau ei gwaith partneriaeth ac wedi sefydlu blaenoriaeth i'w gwella eto.

28. Crynhoir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn **Nhabl 14**.

Tabl 14: ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth

Cryfderau/datblygiadau	Heriau/risgiau/cyfleoedd
Mae sefydlu'r Cydbwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys wedi hwyluso dull mwy cydweithredol o weithio gyda phartneriaid.	Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei phroses gwynion (Gweithio i Wella) ac wedi datblygu Cynllun Gweithredu 100 Diwrnod yn sgil hynny. Serch hynny, nid yw'r cynllun gweithredu wedi datblygu eto i'r graddau a fwriadwyd.
Mae Cynllun Blaenoriaethau Blwyddyn Un yn nodi datblygu cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid i helpu i wella gwaith partneriaeth eto fel un o'i flaenoriaethau ar gyfer 2015-16.	
Datblygwyd strategaeth ymgysylltu â'r gymuned gan gynnwys ymarfer mapio partneriaid a rhanddeiliaid	

Atodiad 1

Argymhellion asesiad strwythuredig 2014

Rhoddir argymhellion asesiad strwythuredig 2014 a chrynodeb o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar bob un isod.

Argymhellion	Crynodeb o'r cynnydd
Cynllunio a rheoli ariannol	
<p>1. Ni chyflwynir adroddiadau am y perfformiad gwirioneddol o'i gymharu â phrosiectau arbed unigol i'r Bwrdd ac ni roddir dim sylwebaeth ychwaith am gynnydd cynlluniau arbed pwysig megis yr adolygiad o'r rota. Argymhellir y dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei hadrodd ariannol i gynnig sylwebaeth reolaidd er mwyn i'r Bwrdd allu herio'n briodol a gwneud penderfyniadau sydd wedi'i seilio ar wybodaeth lawn.</p>	<p>Mae ein hargymhelliad yn 2014 i wella adroddiadau am berfformiad ym maes arbedion drwy adrodd ar y cynnydd gwirioneddol gyda chynlluniau arbed unigol i'r Bwrdd wedi cael sylw. Mae manylion unrhyw wyro oddi wrth y cynllun arbedion bellach yn cael eu rhoi ar gyfer prosiectau unigol mewn atodiad i'r adroddiad cyllid i'r Bwrdd.</p>
Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes	
<p>2. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio'i strwythurau llywodraethu ond nid yw'r cyfarwyddwyr bob tro'n glir am eu rôl ar y Bwrdd Trawsnewid Strategol, lle bydd nifer yn eistedd fel sylwebyddion, na'r llinellau adrodd drwy bwyllgorau am faterion sy'n berthnasol i'r Bwrdd. Mae'r Cadeirydd yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r pwyllgorau. Dylai'r adolygiad hwn geisio egluro rolau a chyfrifoldebau yn ogystal ag adolygu strwythurau, amlder cyfarfodydd a chydbwysedd cymharol y busnes rhwng y pwyllgorau.</p>	<p>Cwblhaodd y Cadeirydd ei adolygiad o strwythur y pwyllgorau, gan newid pethau i wella'r cydbwysedd rhwng agendâu ac i egluro rolau. Mae'r Bwrdd Trawsnewid Strategol wedi dod i ben, a'r Bwrdd Gweithredol yn bennaf, sef y Bwrdd Portffolio, sy'n llywodraethu rhaglenni mawr erbyn hyn. Mae'r cydbwysedd rhwng materion ansawdd, perfformiad a chyllid wedi'i rannu rhwng dau bwyllgor (yn hytrach na'r un blaenorol) – y Pwyllgor Ansawdd, Profiad y Claf a Diogelwch a Chyllid ac Adnoddau.</p>

Argymhellion

3. Mae fframwaith rheoli perfformiad newydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan gynnwys gwell adroddiadau am berfformiad i uwch reolwyr a'r Bwrdd. Gellid gwella'r adroddiadau eto drwy gael rhagor o feincnodi, rhagolygon eglurach ar gyfer perfformiad a thrwy drafod â Llywodraeth Cymru sut mae sicrhau adroddiadau mwy prydlon o fewn y fframwaith adrodd cenedlaethol. Wrth i'r Ymddiriedolaeth gytuno ar ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, dylid diwygio'r adroddiad am berfformiad i sicrhau ei fod yn adrodd am y cynnydd o'i gymharu â chyflawni amcanion strategol.

Crynodeb o'r cynnydd

Nid yw ein hargymhelliad yn 2014 i wella'r adroddiadau am berfformiad wedi cael sylw. Er bod fformat yr adroddiad wedi gwella ni ddefnyddir meincnodi allanol i gymharu perfformiad â'r perfformiad diwedd blwyddyn a ragwelir. Mae adroddiadau am berfformiad hefyd yn dal i gael eu cyflwyno i'r Bwrdd ddau fis yn hwyr. Mae newidiadau i'r adroddiad am berfformiad yn dibynnu ar y fframwaith cynllunio a pherfformiad sy'n datblygu a bydd angen gwella'r adroddiad eto i'w gysoni ag amcanion strategol sy'n codi o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a fframwaith perfformiad y Model Clinigol newydd.

Galluogwyr i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

4. Er mwyn gwella'r dysgu yn sgil adborth defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Grŵp Dysgu Sefydliadol. Fodd bynnag, oherwydd prinder capasiti, nid yw'r Grŵp wedi cyfarfod mor aml â'r disgwyl. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu pa mor effeithiol yw'r grŵp hwn a'r effaith y mae'n ei chael ar newid pethau yn sgil adborth defnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r Grŵp Dysgu Sefydliadol wedi'i adfywio ac fe'i cadeirir bellach gan y Cyfarwyddwr Meddygol. Mae wedi cyfarfod sawl gwaith dros y misoedd diwethaf i gytuno'n gyntaf ar ei ddull gweithredu ac i ddiwygio'i Gylch Gorchwyl ac wedyn i adolygu astudiaethau achos i rannu'r dysgu. Mae'r Grŵp yn bwriadu adolygu nifer fach o risgiau'n drwyadl bob blwyddyn a ddynodir yn sgil adborth gan gleifion a defnyddwyr.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru